Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Craffu Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar Gynllunio Gweithlu yn y Gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mai 2008

Crynodeb Gweithredol

Yn ystod y chwe mis diwethaf, mae'r gwaith o weithredu'r broses integredig newydd o gynllunio'r gweithlu wedi dechrau, ac rwy'n croesawu bod cydnabyddiaeth wedi'i rhoi i'r ffaith y bydd y broses hon yn mynd i'r afael â'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn.

Fodd bynnag, mae'n anffodus na fanteisiwyd ymhellach ar y cyfle i argymell y dylid integreiddio gwaith comisiynu a chynllunio addysg feddygol a deintyddol gyda phrosesau proffesiynol nad ydynt yn ymwneud â meddygaeth.

O ran monitro'r argymhellion, hoffwn bwysleisio faint o newid fydd yn gysylltiedig â'r broses newydd. Mae hyn, ynghyd â strwythurau newidiol GIG Cymru, yn gofyn am gydnabod disgwyliadau realistig mewn perthynas â chynnydd a chanlyniadau.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

Amlinellir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

<u>Y Gwasanaeth Iechyd</u>

1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd camau i wella'r sefyllfa bryderus nad yw Byrddau Iechyd Lleol yn cael cyfleoedd i gyfrannu'n effeithiol at gynllunio gweithlu.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Mae'r rhaglen hyfforddi ar gyfer cynllunio'r gweithlu a gynigir gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH) yn cynnwys staff o BILlau. Mae'r rhaglen hon wedi dechrau mynd i'r afael â diffyg cyfleoedd a gallu BILlau i gyfrannu at gynllunio'r gweithlu.

Mae'r broses integredig newydd o gynllunio'r gweithlu yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau ddatblygu rhwydweithiau cynllunio ar draws economïau iechyd a fydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gallu a chyfleoedd BILlau.

Goblygiadau ariannol: O fewn arian gweithredu'r NLIAH

2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd camau gweithredu brys i gyflogi neu hyfforddi cynllunwyr gweithlu ychwanegol yn Uned Datblygu'r Gweithlu NLIAH.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Mae cynlluniwr gweithlu ychwanegol sy'n arbenigo mewn cynllunio meddygol a deintyddol a rheolwr ychwanegol ar gyfer cynllunio a moderneiddio'r gweithlu wedi'u penodi i'r NLIAH. Mae tri aelod uwch o'r tîm datblygu gweithlu hefyd wedi mynychu'r rhaglen hyfforddi cynllunio'r gweithlu, sydd bellach yn cael ei darparu ar gyfer sefydliadau GIG Cymru gan yr NLIAH. Bydd dau aelod o'r tîm yn mynychu cwrs cynllunio'r gweithlu dwys ym mis Ebrill.

Goblygiadau ariannol: O fewn cyllideb yr NLIAH

3. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sut y gellid cryfhau mecanweithiau cynllunio rhanbarthol, yn enwedig trwy ddod â Byrddau Iechyd Lleol at ei gilydd ar lefel ranbarthol.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Un o ofynion y broses newydd o gynllunio'r gweithlu yw bod economïau iechyd yn cynhyrchu cynlluniau integredig i gwmpasu pob sefydliad yn yr ardal economi iechyd. Mae hyn yn gofyn am sefydlu rhwydweithiau cynllunio economi iechyd y mae BILlau yn rhan allweddol ohonynt. Bydd newidiadau arfaethedig mewn strwythurau sefydliadol o fewn BILlau yn cefnogi'r argymhelliad hwn.

Goblygiadau ariannol: Dim

4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu'r trefniadau ar gyfer cynnwys Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn y system cynllunio gweithlu er mwyn sicrhau bod unigolyn wedi'i ddynodi i fod yn gyfrifol am Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Dylai hyn gynnwys cynrychiolydd Pwyllgor Cynghori ar Therapi Cymru ar fwrdd rhanddeiliaid Uned Datblygu'r Gweithlu NLIAH.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Mae yna eisoes un cynrychiolydd o Bwyllgor Cynghori ar Therapi Cymru ar y Bwrdd Rhanddeiliaid. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Rhanddeiliaid yn adolygu ei aelodaeth er mwyn sicrhau cynrychiolaeth briodol a chydbwysedd ymhlith yr holl grwpiau proffesiynol dan sylw.

Er mwyn llywio'r gwaith comisiynu addysg ar gyfer 2008-9, ymgorfforwyd rhaglen ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Pwyllgor Cynghori ar Therapi Cymru, yn y broses, ynghyd â thrafodaethau â'r Bwrdd Rhanddeiliaid. Mae'r mecanwaith hwn bellach wedi'i gynnwys yn ffurfiol fel rhan o'r broses newydd o gynllunio'r gweithlu.

Caiff cyfraniad ar lefelau lleol a rhanbarthol ei ymgorffori yng nghanllawiau'r gwasanaeth.

Goblygiadau ariannol: Dim

5. Rydym yn argymell bod yr NLIAH yn cymryd camau i sicrhau bod y sector gwirfoddol, grwpiau cleifion a'r Undebau Llafur yn gallu gwneud cyfraniad ystyrlon i'r system integredig newydd ar gyfer cynllunio'r gweithlu.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Yr NLIAH
Mae'r system gynllunio newydd yn hyrwyddo dull cynhwysol sydd hefyd yn cynnwys gofalwyr, y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol statudol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Rhwydweithiau a Chynghreiriau'r sector gwirfoddol, gan gynnwys y Rhwydwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Fel rhan o'r broses weithredu, bydd ffrwd waith benodol yn archwilio'r fethodoleg fwyaf priodol y gall y sector gwirfoddol a'r sectorau annibynnol ei chynnwys yn y broses o gynllunio'r gweithlu.

Mae'r Undebau Llafur yn cael eu cynrychioli ar yr holl grwpiau sy'n cynllunio ar gyfer y broses newydd.

Goblygiadau ariannol: Trwy arian gweithredu'r NLIAH. Fodd bynnag, gan fod y mater hwn yn thema allweddol yn *Cynllun i Ychwanegu Gwerth – Trydydd Dimensiwn*, efallai y bydd adnoddau ychwanegol yn cael eu nodi yn dilyn ymgynghoriad.

6. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal adolygiad i weld a ellir symleiddio trefniadau ariannu ar gyfer hyfforddiant meddygol a deintyddol ôl-gofrestru a chyn-cofrestru, er mwyn gallu cydlynu mwy wrth gynllunio gweithlu.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Sylwadau: Ar hyn o bryd, caiff elfennau academaidd y 4 blynedd gyntaf o hyfforddiant meddygol a deintyddol eu hariannu trwy gyllidebau addysg (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru) a'r elfen glinigol gan GIG Cymru trwy ddyraniadau SIFT (Cynyddran y Gwasanaeth ar gyfer Hyfforddiant). Caiff y ddwy elfen (h.y. lleoliadau addysg a chlinigol) eu hariannu gan GIG Cymru yn y blynyddoedd olaf (5 a 6). Cydnabyddir y gall hyn achosi anawsterau o ran pennu niferoedd myfyrwyr sy'n dechrau ar hyfforddiant. Mae swyddogion

Adnoddau Dynol ac Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol APADGOS yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod niferoedd a thueddiadau, a bydd adolygiad yn cael ei gynnal i archwilio'r dewisiadau ac ymarferoldeb mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Goblygiadau ariannol: Dim ar hyn o bryd. Bydd arfarniad o ddewisiadau'n ystyried unrhyw oblygiadau ariannol ar gyfer y dyfodol.

7. Rydym yn argymell cydweithrediad agos parhaus rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adrannau Iechyd gweinyddiaethau eraill y DU ar faterion sy'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Ar hyn o bryd, mae uned y gweithlu'n aelod o fforwm cynllunio gweithlu'r DU. Mae swyddogion Adnoddau Dynol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymgysylltu â'u cymheiriaid yn y DU ar faterion rheoleiddio a datblygu'r gweithlu sy'n dylanwadu ar y gwaith o gynllunio'r gweithlu.

Goblygiadau ariannol: Dim

8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynyddu nifer y lleoedd hyfforddiant deintyddol sydd ar gael ar gyfer israddedigion yng Nghymru yn sylweddol, ac yn cynyddu nifer y rhai sy'n cael eu hyfforddi mewn proffesiynau perthynol i ddeintyddiaeth y bydd eu hangen o ganlyniad.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Cyflwynwyd 9 o leoedd ychwanegol i fyfyrwyr deintyddol yn 2003, a chyflwynir 12 lle pellach yn 2009/10. Mae hyn yn unol â'r gofynion a nodir yn yr Adolygiad Deintyddol (Ffyrdd i Ddiwygio) yn 2002.

Mae nifer y lleoedd hyfforddiant ar gyfer hylenyddion a therapyddion deintyddol wedi aros yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf. Gofynnwyd i'r Ysgol Ddeintyddol ddarparu gwybodaeth am ofynion y grwpiau staff hyn ar gyfer y dyfodol i gefnogi'r cynnydd mewn deintyddion sy'n derbyn hyfforddiant.

Goblygiadau ariannol: Mae costau hyfforddi myfyrwyr deintyddol ychwanegol eisoes wedi'u hystyried mewn cyllidebau. Y gost o hyfforddi hylenydd neu therapydd deintyddol yw £28,534 dros 2 flynedd.

9. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymchwilio i weld a allai cynnig bwrsarïau ychwanegol neu gymelliannau ariannol eraill annog mwy o geisiadau israddedigion gan fyfyrwyr yng Nghymru.

Ymateb: Dim derbyn na gwrthod

Sylwadau: Ar hyn o bryd, nid oes yna brinder ceisiadau i Ysgolion Meddygol yng Nghymru. Er bod llawer o geisiadau'n dod o'r tu allan i Gymru, bydd rhai o'r myfyrwyr hynny'n aros yng Nghymru ar ôl graddio. Mae myfyrwyr meddygol sy'n ymgartrefu yng Nghymru ond yn hyfforddi yn Lloegr yn derbyn cymorth gan GIG Cymru ym mlynyddoedd olaf eu hyfforddiant.

Fodd bynnag, gallai cymelliannau ariannol a/neu anariannol ddylanwadu ar ansawdd a lleoliad daearyddol ceisiadau, felly rydym eisoes yn mynd i'r afael â'r mater hwn i sicrhau bod Cymru'n cael ei hystyried yn amgylchedd hyfforddi deniadol a bod ceisiadau digonol yn cael eu derbyn o bob cwr o Gymru.

Goblygiadau ariannol: Dim ar hyn o bryd. Ystyrir goblygiadau ar ôl ymchwilio i'r dewisiadau.

10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymchwilio i weld a allai cynnig bwrsarïau ychwanegol neu gymelliannau ariannol eraill annog mwy o feddygon sydd newydd gymhwyso i gwblhau eu hyfforddiant ôl-raddedig mewn ardaloedd lle ceir prinder yng Nghymru.

Ymateb: Dim derbyn na gwrthod

Sylwadau: Nid oes yna brinder meddygon newydd gymhwyso yn gwneud cais am swyddi sylfaen. Fodd bynnag, mae nifer ac ansawdd y ceisiadau ar gyfer hyfforddiant arbenigol yn destun pryder, a hwyrach y byddai rhyw fath o broses cymhelliant o fudd. Mae'n bwysig nodi bod angen cydymffurfio â rheoliadau'n ymwneud â cheisiadau, ac na fyddai'n bosibl cysylltu cymhellion ag unrhyw sicrwydd o swyddi hyfforddiant arbenigol. Fodd bynnag, hwyrach y gellir ystyried rhyw fath o addewid ffyddlondeb sy'n sicrhau bod meddygon newydd gymhwyso yng Nghymru yn gwneud cais am hyfforddiant arbenigol yng Nghymru lle bo hynny'n briodol.

Oherwydd hyn, rydym wrthi'n ymchwilio i nifer o ddewisiadau ar gyfer cymelliannau ariannol ac anariannol.

Goblygiadau ariannol: Dim ar hyn o bryd. Ystyrir goblygiadau fel rhan o arfarniad dewisiadau cynlluniau cymhelliant priodol.

11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog Byrddau Iechyd Lleol ymhellach i gyflogi mwy o Feddygon Teulu a Deintyddion ar gyflog.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Rydym yn ymwybodol o broffil oedran meddygon teulu cyfredol mewn rhai rhannau o Gymru y gellir mynd i'r afael ag ef trwy gyflogi mwy o feddygon teulu ar gyflog. Byddai unrhyw gynllun i symud yn strategol i sicrhau mwy o gydbwysedd rhwng y nifer o feddygon teulu ar gyflog a'r nifer o

feddygon teulu hunangyflogedig ar gontract yn gofyn am amser i ddatblygu'r seilwaith angenrheidiol i gwmpasu rhan newydd o'r gweithlu.

Goblygiadau ariannol: Byddai angen i gostau fod yn seiliedig ar gyflymder y newid.

12. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn cynyddu nifer y nyrsys cymunedol a'u hyfforddi ar gyfer y rôl estynedig a ragwelir yn "Cynllun Oes".

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Yn ddiweddar, cynhaliwyd adolygiad o nyrsio cymunedol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys gofynion addysg a hyfforddiant nyrsys cymunedol. O ganlyniad, mae Uned Datblygu'r Gweithlu, Darparwyr Addysg, cynrychiolwyr y proffesiwn nyrsio yng Nghymru a Choleg Brenhinol y Nyrsys yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu modiwlau addysg priodol fel y gall y rheini sy'n gweithio neu sydd am weithio yn y gymuned fanteisio ar hyfforddiant priodol. Mae'r gwaith o gomisiynu hyfforddiant ôl-gofrestru fesul modiwlau yn cael ei gyflwyno yn y flwyddyn academaidd 2008/09 ochr yn ochr â rhaglenni nyrsio cymunedol llawn. Bydd hyn yn galluogi mwy o nyrsys i dderbyn hyfforddiant sy'n briodol i'r gwaith maen nhw'n ei gyflawni. Yn 2008/09, bydd hyn yn golygu cynnydd o 11% mewn hyfforddiant nyrsio cymunedol.

Goblygiadau ariannol: Gan fod rhai cyrsiau nyrsio cymunedol wedi'u comisiynu mewn fformat modiwlaidd, roedd hi'n bosibl cynyddu cyfanswm yr hyfforddiant sydd ar gael o fewn y gyllideb addysg a hyfforddiant gyfredol.

13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych ar yr agweddau ymarferol ar gyflwyno cynllun cyflogaeth neu "swyddi cynorthwyo" gwarantedig ar gyfer nyrsys sydd newydd gymhwyso ac ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, sef cynllun tebyg i'r un sydd wedi'i gyflwyno ar gyfer nyrsys yn yr Alban.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Sylwadau: Sefydlwyd gweithgor cyflogi graddedigion gydag aelodau sy'n cynnwys rheolwyr nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, undebau llafur a chynrychiolwyr o Uned Datblygu'r Gweithlu a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am fonitro cyflogaeth graddedigion yng Nghymru a rhannu arferion da o ran defnyddio graddedigion newydd. Hefyd, gofynnwyd iddo gynnal arfarniad dewisiadau o nifer o atebion i ddatrys y broblem o raddedigion o Gymru yn methu â sicrhau gwaith. Bydd y grŵp yn cyhoeddi adroddiad ym mis Mai/Mehefin eleni.

Goblygiadau ariannol: Bydd gan unrhyw gynllun fel cyflogaeth warantedig oblygiadau ariannol. Mae costio dewisiadau o'r fath yn rhan o gylch gwaith y Gweithgor.

14. Rydym yn argymell bod yr NLIAH yn adolygu'r data mae'n ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio'r gweithlu fel rhan o roi'r system integredig newydd ar gyfer cynllunio'r gweithlu ar waith, er mwyn sicrhau ei fod mor gadarn, perthnasol a chyflawn â phosibl, yn enwedig yng nghyd-destun anghenion cyflenwi gwasanaeth yn y dyfodol.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Sefydlwyd ffrwd wybodaeth fel rhan o'r cynllun gweithredu ar gyfer y broses integredig newydd o gynllunio'r gweithlu. Bydd y ffrwd wybodaeth yn cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredu ac yn darparu argymhellion ar faterion allweddol mewn perthynas â sicrhau a dilysu data cadarn gan y sector Gofal Sylfaenol ac Eilaidd, sy'n hanfodol er mwyn llywio'r broses o gynllunio'r gweithlu. Cydnabyddir bod angen cysylltiad agos â'r ESR a'r prosiect data meddygon teulu gofal sylfaenol.

Goblygiadau ariannol: Rhan o drefniadau gweithredu.

15. Rydym yn argymell bod y contract Meddygon Teulu'n cael ei ddiwygio cyn gynted â phosibl fel bod gofyn i Feddygon Teulu ddarparu gwybodaeth sylfaenol am y nifer a'r mathau o staff y maent yn eu cyflogi.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Sylwadau: Cydnabyddir yr angen am ddata gwell gan feddygon teulu. Byddai unrhyw ofyniad i ddarparu gwybodaeth am staff yn golygu newid rheoliadau'r contract ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol, a allai gael goblygiadau i'r DU i gyd. Bydd yr argymhelliad yn cael ei ystyried gyda GPC Cymru.

Mae gan y Prosiect Gwybodaeth Meddygon Teulu is-grŵp sydd â'r nod o edrych ar anghenion gwybodaeth y gweithlu a sut y gellir casglu'r data'n electronig fel rhan o ateb integredig i'r gwaith o gynllunio'r gweithlu. Caiff prosesau i gasglu data cywir y tu allan i newidiadau i'r contract ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol eu harchwilio.

Goblygiadau ariannol: I'w hystyried.

16. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno trefniadau i allu comisiynu lleoedd hyfforddi mewn addysg uwch dros gylch 5 mlynedd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Sylwadau: Cydnabyddir ei bod hi'n ofynnol i Brifysgolion gynllunio dros gylch 5 mlynedd. Fel rheol, mae contractau comisiynu cyfredol a gynigir gan GIG Cymru yn rhai 5 mlynedd, gyda gorchmynion amrywiol blynyddol sy'n darparu'r niferoedd cywir o fyfyrwyr.

Mae Uned Datblygu'r Gweithlu wedi cynnal adolygiad o brosesau comisiynu, a chaiff y canlyniadau eu cyhoeddi maes o law. Yn dilyn hyn, bydd angen cynnal trafodaethau gydag Adran Gyllid y GIG i weld sut gellir rheoli cyllidebau addysg a hyfforddiant yn well er mwyn cynyddu'r cylch cynllunio.

Bydd blwyddyn gyntaf y broses integredig newydd o gynllunio'r gweithlu hefyd yn cysoni'r cylchoedd cynllunio blynyddol ar gyfer y gweithlu, cyllid a gwasanaeth, gan ddarparu gwybodaeth flynyddol am gomisiynu addysg 6 mis yn gynharach nag ar hyn o bryd. Bydd gwell dull o gasglu data ar gynllunio'r gweithlu yn hyrwyddo mwy o hyder mewn cynlluniau comisiynu hirdymor.

Cefnogir defnyddio niferoedd dangosol ar gyfer comisiynu addysg am 3-5 mlynedd.

Goblygiadau ariannol: Bydd cylch cynllunio cynyddol yn ei gwneud hi'n ofynnol i bennu cyllidebau addysg a hyfforddiant gael eu gosod am gyfnodau hirach na blwyddyn.

17. Rydym yn argymell bod yr NLIAH yn gweithio'n agos â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddatblygu dulliau addas o weithredu i sicrhau bod digon o staff Cymraeg eu hiaith yn cael eu cyflogi yn y GIG yng Nghymru i ddiwallu anghenion cleifion.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Sylwadau: Gofynnir i bob Sefydliad Addysg Uwch wneud yn siŵr bod myfyrwyr yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn ystod eu hyfforddiant. Mewn rhai rhaglenni, mae yna gyfle i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau Cymraeg neu, os ydyn nhw eisoes yn gallu siarad Cymraeg, i gwblhau rhan o'u hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid parhau i drafod y gofyniad hwn wrth gontractio rhaglenni addysg.

Mae gwaith yn parhau yn GIG Cymru i benodi cydgysylltwyr Cymraeg a fydd yn mynd i'r afael â gofynion hyfforddi staff.

Goblygiadau ariannol: Dim o fewn trefniadau cyfredol

<u>Gofal Cymdeithasol</u>

18. Rydym yn argymell bod Cyngor Gofal Cymru (CGC), fel rhan o'i adolygiad o bartneriaethau gweithlu rhanbarthol, yn cryfhau'r cysylltiadau rhyngddynt a'r partneriaethau gweithlu lleol, ac yn datblygu'r cyfraniad y maent yn ei wneud at gynllunio'r gweithlu.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Mae'r Cyngor Gofal wedi dechrau trafod gyda Phartneriaethau Rhanbarthol a gofynnir iddo ystyied yr argymhelliad hwn.

Goblygiadau ariannol: Dim hyd yma.

19. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu cymorth pellach i ddarparwyr gofal cymdeithasol yn y sectorau gwirfoddol ac annibynnol, ac i grwpiau defnyddwyr gwasanaeth, er mwyn ymestyn eu gallu i ymgysylltu â phrosesau cynllunio'r gweithlu.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Sylwadau: Mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn yn lleol ac yn rhanbarthol trwy'r partneriaethau i gynnal arweinyddiaeth leol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu arian trwy'r Cyngor Gofal a grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol a reolir gan AGGCC.

Mae proses integredig o gynllunio'r gweithlu hefyd wedi'i nodi fel thema allweddol yn *Cynllun i Ychwanegu Gwerth - Trydydd Dimensiwn 2008*.

Goblygiadau ariannol: Dim mewn perthynas â gweithgarwch cyfredol. Gan fod y mater hwn yn thema allweddol yn *Cynllun i Ychwanegu Gwerth - Trydydd Dimensiwn,* bydd angen ystyried adnoddau ychwanegol yn dilyn ymgynghori.

20. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu canllawiau pellach i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod arferion comisiynu awdurdodau lleol yn gwbl gydgysylltiol â'r broses cynllunio gweithlu.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Caiff yr argymhelliad hwn ei ddatblygu gan waith Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol ar gomisiynu a'r gweithlu, mewn partneriaeth ag AGGCC.

Goblygiadau ariannol: I'w hystyried fel rhan o waith parhaus.

21. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio â Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i ddatblygu cymorth a hyfforddiant i staff cynllunio gweithlu awdurdodau lleol er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gynyddu eu gallu ar gyfer cynllunio gweithlu.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Bydd **yr** NLIAH a'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r argymhelliad hwn.

Goblygiadau ariannol: I'w cadarnhau.

22. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, trwy Gyngor Gofal Cymru, gyflwyno Set Ddata Sylfaenol Genedlaethol i gasglu gwybodaeth am y gweithlu ar gyfer y sector gofal cymdeithasol cyfan yng Nghymru, yn amodol ar werthusiad o fodel Lloegr.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Mae'r Cyngor Gofal yn trafod y ffordd ymlaen ar gyfer Cymru gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Goblygiadau ariannol: Ystyriaethau ariannol yn rhan o waith parhaus.

23. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, trwy Gyngor Gofal Cymru, yn adolygu'r trefniadau ôl-gymhwyso ar gyfer gweithwyr cymdeithasol gyda'r bwriad o wella eglurder a chysonder ledled Cymru.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Mae'r Cyngor Gofal yn adolygu ac yn drafftio'r fframwaith ôl-gymhwyso fel rhan o waith parhaus.

Goblygiadau ariannol: Rhan o'r broses adolygu

24. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymgymryd â gwaith gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol i gysoni amodau a thelerau cyflogaeth gweithwyr cymdeithasol.

Ymateb: Dim derbyn na gwrthod

Sylwadau: Nid yw amodau a thelerau yn rhan o gylch gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddwn yn gwahodd CLlLC i ystyried yr argymhelliad hwn.

Goblygiadau ariannol: Dim

25. Rydym yn argymell bod Cyngor Gofal Cymru'n adolygu ei fframwaith cynefino er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried anghenion gweithwyr mudol, a'i fod yn adnewyddu ymdrechion i sicrhau bod y fframwaith yn rhan o weithdrefnau safonol ar gyfer awdurdodau lleol.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Bydd y Cyngor Gofal yn cynnal adolygiad o'r fath fel rhan o'i gynllun datblygu ar gyfer 2008/09.

Goblygiadau ariannol: Dim

26. Rydym yn argymell ymestyn cylch gorchwyl y tasglu presennol ar yr iaith Gymraeg yn y gwasanaeth iechyd i gynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Y broses i'w chadarnhau. Bydd yr NLIAH yn gweithio gyda'r Ganolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i sicrhau bod y gweithlu'n ddigon medrus a chymwys i ddiwallu anghenion amrywiol y boblogaeth.

Goblygiadau ariannol: Dim

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

27. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n adolygu amserlen ei strategaeth cynllunio gweithlu iechyd i sicrhau mwy o gydlyniant â'r sector gofal cymdeithasol mor fuan â phosibl.

Ymateb: Derbyn

Sylwadau: Fel rhan o'r gwaith o weithredu'r broses newydd o gynllunio'r gweithlu, sefydlwyd ffrwd waith Gofal Cymdeithasol integredig i ymchwilio i'r gwaith o ddatblygu mwy o gydlyniant rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gwaith o gynllunio'r gweithlu. Er y bydd y gwaith hwn yn dod yn ganolbwynt allweddol o 2009 ymlaen, mae gwaith i sicrhau mwy o gydlyniant eisoes wedi dechrau. Gwahoddir awdurdodau lleol i gymryd rhan yn y rhwydweithiau cynllunio economi iechyd.

Goblygiadau ariannol: Rhan o gyllid gweithredu yr NLIAH

28. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n adolygu'r mecanweithiau ar gyfer comisiynu hyfforddiant therapyddion galwedigaethol a phroffesiynau therapi eraill gyda'r bwriad o ganoli'r trefniadau hyn.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Sylwadau: Ar hyn o bryd, mae nifer y therapyddion sy'n cael eu comisiynu yn seiliedig ar ddata ynglŷn â gweithlu'r GIG. Caiff gofynion eu llywio gan gyrff proffesiynol perthnasol sy'n darparu data ar nifer y therapyddion sy'n gweithio mewn sectorau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG. Gwneir argymhellion ar y sail hon. Bydd trefniadau newydd yn pennu gofynion cywir a ledled pob sector. Ar hyn o bryd, daw cyllid ar gyfer therapyddion o gyllideb addysg a hyfforddiant y GIG nad yw'n ymwneud â meddygaeth, ac ni cheir unrhyw gyfraniad gan sectorau eraill.

Fodd bynnag, er y byddem yn derbyn bod angen cyflawni rhywfaint o waith mewn perthynas ag amrywiaeth o wasanaethau a grwpiau staff proffesiynol, dim ond cefnogi a dilysu'r cynlluniau economi iechyd y dylai hyn ei wneud.

Gallai'r argymhelliad hwn fynd yn groes i'r broses integredig o gynllunio'r gweithlu, yn seiliedig ar ddatblygu timau amlddisgyblaethol cymwys.

Goblygiadau ariannol: Bydd gofynion staffio ar gyfer sefydliadau gofal cymdeithasol yn galw am gynnydd yn nifer yr unigolion sy'n derbyn hyfforddiant. Ar gyfartaledd, y gost o hyfforddi Therapydd Galwedigaethol yw £23,592 dros 3 blynedd, £35,404 dros 4 blynedd neu £17,930 dros 2 flynedd. Byddai cynnydd sylweddol yn cael effaith ar ofynion y GIG ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol nad yw'n ymwneud â meddygaeth.